## Grantiau rhwng £250,000 ac £1miliwn

### Mynegiad o ddiddordeb

Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant **rhwng £250,000 ac £1miliwn** gwblhau ffurflen **Mynegiad o Ddiddordeb** fer. Cyfeiriwch at ein Nodiadau cymorth Mynegiad o Ddiddordeb i gael mwy o wybodaeth am sut i gwblhau eich ffurflen.

Rhaid i chi gyflwyno eich Mynegiad o Ddiddordeb erbyn **12 hanner dydd ar 16 Awst 2024**.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n dangos ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Byddwn yn ceisio ymateb i'ch Mynegiad o Ddiddordeb o fewn 20 diwrnod gwaith. Os bydd eich Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus rhaid i chi gyflwyno eich cais llawn erbyn **12 hanner dydd ar 8 Tachwedd 2024.**

Ewch i'n gwasanaeth ar-lein i wneud cais.

## Nodiadau cymorth a thempledi

**Noder**: mae'r Gronfa Treftadaeth yn defnyddio'r un ffurflenni cais ar draws amrywiaeth o'n rhaglenni. Mae angen ateb rhai cwestiynau'n wahanol ar gyfer y rhaglen hon, felly cyn i chi ymgeisio, rhaid i chi ddarllen y nodiadau cymorth ymgeisio yn ofalus er mwyn deall pa wybodaeth sydd ei hangen a ble. **Peidiwch** â defnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein.

Rydym wedi dylunio'r broses ymgeisio i fod mor syml â phosibl ac yn gofyn dim ond am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom. Defnyddiwch yr adnoddau hyn i lywio eich cais:

- Ymholiad Prosiect
- Mynegiad o Ddiddordeb
- Costau prosiect a templed cynllun prosiect
- Cwestiynau ymgeisio: £10,000 i £250,000
- Cwestiynau ymgeisio: £250,000 i £1miliwn
- Derbyn eich grant: £50,000 i £250,000
- Derbyn eich grant: £250,000 i £1miliwn

Expand All accordions

# Sut y byddwn yn asesu'ch cais

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

